# Polisi ar gyfer delio gydag ymddygiad annerbyniol gan fudd-ddeiliaid Ysgol Dewi Sant

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cymeradwyo: | Mawrth 2026 |
| Dyddiad Adolygu: | Mawrth 2028 |
| Statudol neu an-statudol: | An-statudol |

**Polisi ar gyfer delio gydag ymddygiad annerbyniol gan fudd-ddeiliaid**[1]

## 1 Trosolwg

1.1 Yn Ysgol Dewi Sant, credwn fod gan ein budd-ddeiliaid hawl i gael eu clywed, eu deall a'u parchu.

1.2 Rydym hefyd yn credu fod gan ein staff a'n llywodraethwyr yr hawl i weithio mewn amgylchedd diogel, heb unrhyw gamdriniaeth neu niwed gan eraill.

1.3 Disgwyliwn i'n holl fudd-ddeiliaid drin ein staff a'n llywodraethwyr gyda chwrteisi a pharch bob amser, fel y gwnawn ni gyda'n budd-ddeiliaid.

1.4 Fe geir ychydig o achosion pan fo ymddygiad rhai budd-ddeiliaid yn annerbyniol oherwydd eu bod yn ymosodol tuag at ein staff a'n llywodraethwyr ac/neu'n anwybyddu ein prosesau.

1.5 Ni fyddwn yn ystyried fod gweithred yn annerbyniol oherwydd bod rhywun yn ddiwyro neu'n benderfynol. Fodd bynnag, rydym yn ystyried ymddygiad sy'n arwain at ofynion afresymol ac/neu ymddygiad ymosodol yn annerbyniol.

1.6 Mae ystod o weithredoedd sy'n annerbyniol yn ein barn ni, y gellir eu grwpio fel a ganlyn:

- Ymddygiad ymosodol neu sarhaus
- Gofynion afresymol a/ neu lefelau cyswllt afresymol.

## 2. Ymddygiad ymosodol neu sarhaus

2.1 Rydym yn deall y gall pobl deimlo'n ddig pan fyddant yn teimlo nad yw materion sy'n bwysig iddynt yn cael eu trin yn y modd y dymunent. Os yw'r dicter hwnnw'n troi'n ymosodol neu'n sarhaus tuag at ein staff neu ein llywodraethwyr, rydym o'r farn bod hynny'n annerbyniol.

2.2 Mae ymddygiad ymosodol neu sarhaus yn cynnwys iaith (boed ar lafar neu'n ysgrifenedig) a allai beri i staff neu lywodraethwyr deimlo'n ofnus, dan fygythiad neu wedi eu sarhau ac fe all hynny gynnwys bygythiadau, cam-drin geiriol personol, sylwadau difrïol ac anfoesgarwch. Rydym hefyd yn credu bod

[1] Diffiniad o fudd-ddeiliaid: unrhyw un sydd â chyswllt â'r ysgol heblaw am staff [lle bydd ymddygiad afresymol yn cael ei drin o dan y weithdrefn ddisgyblu] a myfyrwyr [lle bydd ymddygiad annerbyniol yn cael ei drin o dan bolisi ymddygiad yr ysgol] a llywodraethwyr [lle bydd materion yn cael eu rheoli o dan god ymddygiad y llywodraethwyr].

datganiadau llidus, sylwadau o natur wahaniaethol a honiadau di-sail, yn ymddygiad ymosodol. Pan fydd budd-ddeiliad yn ymosodol neu'n sarhaus efallai y byddwn yn penderfynu:

- Rhoi gwybod i'r budd-ddeiliad ein bod yn ystyried eu hymddygiad yn sarhaus, yn ddiangen ac yn ddi-fudd a gofyn iddynt roi'r gorau i ymddwyn felly;
- Rhoi'r ffôn i lawr / terfynu apwyntiadau neu gyfarfodydd;
- Terfynu pob cyswllt uniongyrchol gyda'r budd-ddeiliad;
- Rhoi gwybod i'r heddlu. Bydd hyn bob amser yn wir os yw trais corfforol yn cael ei ddefnyddio neu ei fygwth; a
- Cymryd unrhyw gamau priodol eraill o dan yr amgylchiadau.

## 3. Gofynion afresymol a/ neu lefelau cyswllt afresymol.

3.1 Mae gofynion yn annerbyniol os ydynt yn dechrau cael effaith ar waith ein staff a'n llywodraethwyr, neu fod delio â mater yn cymryd gormod o amser ac, wrth wneud hynny, yn rhoi budd-ddeiliaid eraill, staff, llywodraethwyr a disgyblion dan anfantais.

3.2 Pan fydd budd-ddeiliad yn cyflwyno gofynion afresymol, yn cysylltu â ni'n barhaus yn bersonol, dros y ffôn, e-bost ac ati, yn cysylltu â nifer o staff neu lywodraethwyr ynglŷn â'r un mater, yn codi'r un mater yn barhaus, neu'n anfon niferoedd o ddogfennau lle nad yw eu perthnasedd yn amlwg, efallai y byddwn yn penderfynu:

- Cyfyngu ar gyswllt y person i alwadau ffôn ar adegau a diwrnodau penodol;
- Cyfyngu cyswllt i aelod penodol o staff a fydd yn delio â galwadau ffôn neu ohebiaeth yn y dyfodol;
- Gweld yr unigolyn drwy apwyntiad yn unig;
- Cyfyngu cyswllt i ohebiaeth ysgrifenedig yn unig;
- Gwrthod delio â gohebiaeth bellach a dychwelyd unrhyw ddogfennau;
- Rhoi gwybod i'r person y bydd dogfennau amherthnasol yn cael eu dinistrio; a
- Cymryd unrhyw gamau priodol eraill o dan yr amgylchiadau.

## 4. Gweithredu

4.1 Cyn i ni gymryd unrhyw gam gweithredu, byddwn yn rhoi cyfle i'r budd-ddeiliad newid ei ymddygiad. Os bydd yr ymddygiad annerbyniol yn parhau, byddwn yn gweithredu fel y nodir yn y ddogfen hon.

4.2 Bydd budd-ddeiliaid yn cael gwybod yn ysgrifenedig pam bod penderfyniad wedi ei wneud, beth fydd y trefniadau amgen a hyd y cyfyngiadau.